



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Rhaglen Diwygio Mynediad

Adroddiad Dethol Opsiwn Diwygio:
Grŵp Arbenigol 1

Newidiadau i Fynediad o dan y Ddeddf Cefn
Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW)


Adroddiad Dethol Opsiynau: Diwygiadau 1A ac 1B

Mae'r papur hwn yn cyflwyno cynigion opsiynau diwygio diwygiedig ar gyfer gweithredu **Diwygiad 1A** a **Diwygiad 1B** y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad. Caiff y papur ei ystyried gan **Grŵp Arbenigol 1** mewn gweithdai dethol opsiynau ym mis Ionawr 2021.

Cyflwyniad

Pennwyd y dasg i'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad ddatblygu cyngor ac argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch cyflawni diben ei pholisi ar gyfer diwygio deddfwriaeth mynediad hamdden yng Nghymru.

Caiff y broses a sefydlwyd ar gyfer datblygu'r cyngor ei chrynhoi isod:¹



Dyma fwriad y polisi ar gyfer Diwygiadau 1A ac 1B:

Crynodeb o fwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 1A

Galluogi beicio, marchogaeth, barcuta, paragleidio, ymdrochi, defnyddio llong ddŵr neu fwrdd hwylio² i ddigwydd drwy hawl ar dir sydd â hawl mynediad o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (CRoW).

Crynodeb o fwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 1B

Ymestyn tir mynediad CRoW i'r arfordir, clogwyni arfordirol a blaendraeth a hwyluso teithiau hamdden cysylltiol parhaus ar hyd arfordir Cymru gyfan. Rhoddir ystyriaeth i rinweddau cynnwys Llwybr Arfordir Cymru fel rhan o'r diffiniad o dir mynediad arfordirol CroW newydd.

Trwy weithio gyda thri grŵp arbenigol y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad, cynhyrchwyd papur nodi problemau/materion ar gyfer pob maes diwygio.

Datblygwyd papur nodi opsiynau o bob un ohonynt yn crynhoi'r dulliau posibl o weithredu bwriad y polisi diwygio a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae pob opsiwn diwygio a gynigiwyd (e.e. 1A(i), 1A(ii), 1A(iii)) yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Teitl yr opsiwn
- Disgrifiad cryno o'r opsiwn
- Tabl yn rhestru'r *elfennau allweddol*³ ar gyfer pob opsiwn a gynigir

Yna cynhyrchwyd adroddiad dadansoddi opsiynau manwl o bob opsiwn diwygio gan ddefnyddio mewnbwn uniongyrchol gan bob grŵp arbenigol yn ogystal â thystiolaeth a wahoddwyd gan aelodau o Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru, polisïau a

¹ I gael rhagor o wybodaeth am y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad, proses a meysydd diwygio y grŵp hwn, ac allbynnau a gyhoeddwyd ar gyfer pob cam a gwblhawyd hyd yn hyn, ewch i: [wefan Llywodraeth Cymru](#).

² Mae'r cyfeiriad at ddefnyddwyr hawliau uwch yn unol â'r bwriad polisi ar gyfer Diwygiad 1A oni nodir yn wahanol.

³ Ar gyfer pob opsiwn, yr elfennau allweddol yw'r newidiadau manwl amrywiol y cynigir eu bod yn angenrheidiol i weithredu bwriad y polisi diwygio. Mae elfennau

fforymau mynediad lleol, ac arbenigwyr eraill o ar draws cylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mewn gweithdai ar-lein ym mis Medi 2020, ystyriodd y grwpiau arbenigol yr adroddiadau dadansoddi opsiynau drafft. Defnyddiwyd y wybodaeth i ddatblygu ymhellach yr adroddiadau dadansoddi priodol a'u cwblhau, ac i ddatblygu'r papurau dethol opsiwn diwygio.

Y broses dethol opsiwn

Caiff y papurau **dethol opsiwn diwygio** yn ogystal â'r adroddiadau dadansoddi perthnasol eu hystyried gan y grŵp arbenigol priodol ym mis Ionawr 2021 mewn **gweithdai dethol opsiwn**.

Diben y gweithdai yw nodi:

- opsiwn dewisol
- cyngor ac ystyriaethau cysylltiedig

y grŵp arbenigol ar gyfer pob diwygiad.

Caiff y wybodaeth o'r gweithdai ym mis Ionawr 2021 ei hystyried gyda'r adroddiadau dadansoddi a'r allbynnau eraill o broses y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad i greu adroddiad terfynol o gyngor i Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni bwriad ei pholisi ar gyfer holl ddiwygiadau'r grŵp hwn.

Dylid nodi bod cynnwys y papur hwn yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu cyngor i Lywodraeth Cymru er mwyn diwygio deddfwriaeth mynediad fel rhan o'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad. Nid yw gwybodaeth ac allbynnau o'r fath a gynhyrchir yn ystod proses y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad yn cynrychioli sefyllfa bolisi Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, sefydliadau sy'n ffurfio'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad (grŵp llywio / grwpiau arbenigol) na sefydliadau eraill sydd wedi cyfrannu, ac ni ddylid eu hystyried chwaith fel arwydd o gefnogaeth neu fel arall i'r cynigion.

Opsiynau diwygiedig Diwygiad 1A ar gyfer dethol opsiwn

Fel y disgrifir uchod, mae'r cynigion opsiynau diwygio gwreiddiol wedi'u diwygio ar ôl dadansoddi'r opsiynau. Mae teitlau a disgrifiadau'r opsiynau diwygiedig ar gyfer pob opsiwn 1A a gynigiwyd i'w dethol fel opsiwn wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol:

1A: Teitl y cynnig opsiwn diwygiedig	Disgrifiad amlinellol diwygiedig o'r cynnig opsiwn
i. Cymhwyso'r cyfyngiadau cyffredinol diwygiedig yn Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW) i dir mynediad CRoW	Diddymu'r cyfyngiadau hawliau uwch a amlinellir yn y bwriad polisi o Atodlen 2 CRoW (ac eithrio tir arfordirol 1B ⁴). Defnyddio pwerau CRoW presennol i reoli, gwahardd neu gyfyngu ar hawliau mynediad CRoW sy'n deillio o hynny. Cryfhau ymddygiadau cyfrifol, e.e. trwy god statudol.

⁴ Bydd rhoi hawliau uwch i dir mynediad arfordirol yn cael ei ystyried ochr yn ochr â Diwygiad 1B.

ii. Rhoi hawliau uwch ⁵ i dir mynediad CRow yn amodol ar asesu'r galw/addasrwydd	Mae awdurdodau mynediad yn rhoi hawliau uwch yn ddetholus i ardaloedd penodedig o dir CRow yn seiliedig ar asesiad o 'addasrwydd'. Cymhwyso deddfwriaeth CRow bresennol i reoli'r hawliau fel y'u hymestynnwyd.
iii. Hawliau uwch ar lwybrau CRow diffiniedig (dull coridor)	Llwybr/coridor llinol, wedi'i ddiffinio gan awdurdod mynediad, drwy dir CRow lle mae cyfyngiadau Atodlen 2 wedi'u codi ar gyfer marchogion a beicwyr o leiaf.

Cynigion dethol opsiwn diwygio – nodi elfennau allweddol gofynnol

Ar gyfer pob un o'r opsiynau amlinellol diwygiedig a nodwyd uchod, mae'r disgrifiad cryno a'r elfennau allweddol angenrheidiol ar gyfer dull pob opsiwn wedi'u diwygio yn yr un modd. Caiff y rhain eu crynhoi isod.

1A(i) Cyfyngiadau diwygiedig yn Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRow)

Disgrifiad o'r cynnig dethol opsiwn:

Diwygio Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRow), yn unol â bwriad y polisi, ar gyfer tir mynediad presennol o dan y Ddeddf hon (heblaw am dir arfordirol). Defnyddio pwerau presennol o dan y Ddeddf i reoli hawliau dilynol oddi tani, gyda gwaharddiadau a chyfyngiadau fel y maen nhw ar hyn o bryd neu fel y'u diwygiwyd. Cynnwys cymal cyfrifoldeb wrth codi cyfyngiadau Atodlen 2. Diwygio pwerau Rhan I CRow i gryfhau ymddygiadau cyfrifol, e.e. trwy god statudol.

Dethol opsiwn – elfennau allweddol yn y cynnig i ddiwygio Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRow):

Yn dilyn diwygiadau, ystyriwyd bod angen yr elfennau allweddol canlynol yn yr opsiwn a gynigir i'w ddethol:

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 1A(i) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
001	Diwygio deddfwriaeth Atodlen 2 i Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ar gyfer tir mynediad nad yw'n arfordirol i ganiatáu gweithgareddau hamdden ychwanegol ar dir mynediad presennol yn unol â'r bwriad polisi: <ul style="list-style-type: none"> • beicio, marchogaeth, barcuta a pharagleidio; 	<p>Mae'n cymryd yn ganiataol mai'r Senedd sydd â'r pŵer y cyfeirir ato yn adran 44(3) o'r Ddeddf CRow.</p> <p>Mae angen cyngor cyfreithiol ynglŷn ag a ellir deddfu'r newid hwn ar dir wedi'i gyflwyno o dan adran 16 CRow.</p> <p>Mae angen cyngor cyfreithiol o ran sut mae hyn yn rhyngweithio ag Is-ddeddf 648 y</p>

⁵ Mae'r cyfeiriad at ddefnyddwyr hawliau uwch yn unol â'r bwriad polisi ar gyfer Diwygiad 1A oni nodir yn wahanol.

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 1A(i) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
	<p>ac mewn dyfroedd CRow (ac eithrio cronfeydd dŵr):</p> <ul style="list-style-type: none"> • llongau nad ydynt wedi'u gyrru'n fecanyddol; ymdrochi/nofio 	<p>Comisiwn Coedwigaeth, sy'n atal defnyddio cychod dŵr ar ei dir.</p> <p>Gellid gweithredu diwygiadau trwy ddileu'r gofyniad i awdurdodau perthnasol gael caniatâd tirfeddianwyr i lacio cyfyngiadau o Atodlen 2, paragraff 7(1).</p>
002	Byddai mapiau presennol CRow yn berthnasol [h.y. dim gofyniad i ailfapio mynediad CRow, gan fod y gwaith o fapio tir mynediad yn ôl mathau diffiniedig o dir yn unig – mynydd, rhostir ac ati].	Nid yw'r opsiwn hwn yn berthnasol i dir a gwmpesir gan dir adran 15 CRow gan fod yr hawliau mynediad yn cael eu darparu o dan deddfwriaeth arall.
003	<p>Byddai deddfwriaeth CRow yn berthnasol, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hawliau mynediad [gan gynnwys mapio – gweler uchod] • Trefn gwaharddiadau a chyfyngiadau • Dulliau mynediad (Pennod III) 	<p>Byddai angen adolygu canllawiau adran 33 CRow i sicrhau eu bod yn cynnwys hawliau uwch (ac unrhyw ddiwygiad 1B cymwys).</p> <p>Byddai angen i Lywodraeth Cymru (LIC) ofyn am gyngor cyfreithiol ynghylch a yw Rhan I, Pennod III CRow (Dulliau Mynediad) yn rhoi'r pŵer i awdurdod mynediad wella mynediad i dir mynediad o fewn tir mynediad (er enghraifft, ar draws ffensys mewnol). Os na, dylid gweithredu diwygiadau deddfwriaethol i ganiatáu ar gyfer hyn.</p>
004	Cymhwysu cod mynediad i ddiffinio hawliau a chyfrifoldebau.	<p>Er bod cefnogaeth eang ar gyfer cod ac addysg amdano neu ei hyrwyddo, ni ddaethpwyd i gonsensws eang ar ei ffurf – anstatudol, statudol heb sancsiynau (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd o dan adran 20 CRow) neu statudol gyda sancsiynau.</p> <p>Dylid nodi y gellir bwrw ymlaen â Diwygiad 1A gan ddefnyddio deddfwriaeth bresennol ar gyfer canllawiau a chodau hamdden cyfrifol, gyda diwygiadau addas i destun.</p>
005	Amherthnasol*	
006	Deddfwriaeth i ganiatáu gwella hygyrchedd dodrefn mynediad, fel gatiâu a chamfeydd. Yr holl ddodrefn i fodloni safonau hygyrchedd, fel safon BS5709, wrth eu disodli.	Gellid ymgorffori unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth sy'n egluro Rhan 1, Pennod III CRow (gweler uchod).

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 1A(i) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
007	Symbol mynediad agored newydd ar gyfer arwyddion ar y ddaear (e.e. marcio ffordd). Mae angen i'r dyluniad newydd gynnwys pob defnyddiwr.	<p>Nid oes angen cynnwys symbol mewn deddfwriaeth ond mae angen ei safoni.</p> <p>Mae angen rhoi gwybod i'r Arolwg Ordnans a chwmnïau cartograffeg eraill bod gwahanol hawliau CRoW yn berthnasol yng Nghymru.</p>
008	Cyllid amaethyddol-amgylcheddol ar gael ar gyfer gwella mynediad ac isadeiledd ategol.	Gallai cynllun cyllido amaethyddol diwygiedig ar ôl Brexit gefnogi'r gwaith o wella mynediad ymarferol i dir mynediad, ac o'i fewn.
009	Amherthnasol*	
010	Mae newidiadau yn cael eu cyfleu yng Nghymru – a Lloegr, yn enwedig mewn perthynas ag effaith drawsffiniol.	Bydd cynllun cyfathrebu yn bwysig wrth weithredu unrhyw ddiwygiad i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r mynediad newydd (bydd hyn yn cynnwys adolygu canllawiau a gwybodaeth am fynediad syn'n ymwneud â CRoW).
011	Byddai gan feddianwyr lai o atebolrwydd i ddefnyddwyr hamdden mewn perthynas â hawliau uwch yn rhinwedd deddfwriaeth mynediad CRoW ar hyn o bryd.	<p>Mae hyn yn wir ar hyn o bryd gan fod adran 13, paragraff 4(a) CRoW yn lleihau atebolrwydd pawb sy'n mynd i dir sy'n dod o dan CRoW.</p> <p>Efallai y bydd Llywodraeth Cymru am leihau atebolrwydd ymhellach, megis i'r lefel y darperir ar ei chyfer ar dir mynediad arfordirol yn Lloegr gan adran 306 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir [Lloegr] 2009 (MACA) a/neu drwy leihau'r atebolrwydd sy'n ddyledus gan geidwad anifeiliaid, er enghraifft, trwy welliant i adran 13 CRoW.</p> <p>Byddai'n well cymhwyso'r un lefel o atebolrwydd meddianwyr yn niwygiadau 1A ac 1B.</p>

* Nid yw'r elfen allweddol o gam cynnig nodi opsiynau bellach wedi'i chynnwys. Bydd hyn oherwydd, yn dilyn y cam dadansoddi, ni chafodd yr elfen ei hystyried yn hanfodol neu fe'i hymgorfforwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn elfen allweddol arall. Mae cyfeirnodau'r elfennau allweddol wedi'u cadw i'w gwneud hi'n haws cymharu'r opsiynau diwygiedig hyn â'r fersiynau gwreiddiol. Gweler yr adroddiad dadansoddi i gael rhagor o wybodaeth am newidiadau i elfennau allweddol.

1A(ii) Rhoi hawliau uwch yn amodol ar asesiad o addasrwydd

Disgrifiad o'r cynnig dethol opsiwn:

Rhoi hawliau uwch yn ddetholus i ardaloedd penodedig o dir CRoW yn amodol ar asesiad o addasrwydd.

Dethol opsiwn – elfennau allweddol yn y cynnig i roi hawliau uwch yn amodol ar asesiad o addasrwydd:

Mae gan yr opsiwn 'rhoi hawliau uwch yn amodol ar asesiad o addasrwydd' yr elfennau allweddol ac ystyriaethau cysylltiedig canlynol:

Cyfeirnod	Elfen allweddol Opsiwn 1A(ii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
001	<p>Awdurdodau mynediad i gael pwerau i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynnal asesiad o addasrwydd ar gyfer hawliau uwch tir mynediad penodedig o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (CRoW) yn eu hardaloedd Ymlacio cyfyngiadau Atodlen 2 CRoW ar hawliau uwch ar gyfer ardaloedd o dir mynediad penodedig CRoW yr aseswyd eu bod yn addas 	<p>Gallai fod yn ofynnol i awdurdodau mynediad asesu ardaloedd o dir CRoW yn eu hardaloedd (felly mae'r pŵer yn dod yn ddyletswydd) i sicrhau bod hawliau'n cael eu rhoi yn ehangach.</p> <p>Mae mater sylweddol o ran adnoddau cyn ymgymryd â'r gwaith hwn.</p> <p>Gellid deddfu trwy newid Atodlen 2, paragraff 7(1) CRoW.</p>
002	<p>Pwerau i ddiffinio mewn rheoliadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> Meini prawf asesu addasrwydd ar gyfer mynediad hawliau uwch i fod yn berthnasol i dir mynediad Prosesau asesu a sut y cânt eu defnyddio (gan gynnwys diffinio 'ardal o dir mynediad' at ddibenion asesu) Gofynion prosesau ar gyfer penderfynu llacio Atodlen 2 ar gyfer hawliau uwch 	<p>Gallai rheoliadau neu fethodoleg bennu addasrwydd a'r broses asesu, yn ogystal â chyrff cyfrifol.</p> <p>Byddai angen i'r broses benderfynu ddarparu ar gyfer: ymgynghoriadau, sylwadau, penderfynu ac apeliadau.</p> <p>Nodi ymgynghoreion statudol yn y rheoliadau. Byddai gan fforymau mynediad lleol hawl i gynghori ar unrhyw agwedd ar y broses fel rhan o'u rôl a swyddogaethau presennol.</p>
003	Amherthnasol*	
004	Amherthnasol*	
005	Amherthnasol*	
006	Byddai cyfundrefn gwaharddiadau a chyfyngiadau CRoW yn berthnasol o hyd.	Byddai angen adolygu canllawiau i awdurdodau parciau cenedlaethol a gyhoeddwyd o dan adran 33 CRoW i sicrhau

Cyfeirnod	Elfen allweddol Opsiwn 1A(ii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
		<p>eu bod yn cynnwys hawliau uwch (ac unrhyw ddiwygiad 1B cymwys).</p> <p>Gallai cyfyngiadau ar hawliau uwch ddechrau wrth ddeddfu neu unwaith y bydd yr effaith wedi'i gweld.</p>
007	Adnoddau tirfeddianwyr/rheoli.	<p>Byddai angen adnoddau i awdurdodau mynediad ar gyfer asesu a chostau posibl eraill megis cynnig wardeiniaid, rheoli ymarferol a monitro effaith.</p> <p>Byddai angen i Lywodraeth Cymru ofyn am gyngor cyfreithiol ynghylch a yw Rhan I, Pennod III (Dulliau Mynediad) CRoW yn rhoi'r pŵer i'r awdurdod mynediad wella mynediad i dir mynediad o fewn tir mynediad (er enghraifft, ar draws ffensys mewnol). Os na, dylid gweithredu diwygiadau deddfwriaethol i ganiatáu ar gyfer hyn.</p> <p>Byddai angen i Lywodraeth Cymru gael cyngor cyfreithiol ynghylch goblygiadau diffinio coridorau tir mynediad CRoW yn ddetholus ar gyfer hawliau uwch, yn benodol unrhyw ofynion iawndal.</p>
008	Mae dyletswydd mapio CRoW a phrosesau cysylltiedig yn berthnasol o hyd. Dylai mapiau wahaniaethu rhwng hawliau sy'n gysylltiedig â gwahanol ardaloedd CRoW.	Byddai hefyd angen cysylltu â'r Arolwg Ordians a chwmnïau mapio eraill.
009	Pwerau adran 19 CRoW i ddarparu arwyddion cysylltiedig; symbol/logo mynediad agored hawliau uwch newydd ar gyfer cyfeirbwyntiau ac arwyddion; ardaloedd heb eu heffeithio i barhau gyda'r arwyddion a'r cyfeirbwyntiau presennol.	Safoni cynllun ar gyfer disgiau cyfeirbwynt newydd, arwyddion pwynt mynediad ac arwyddion cyfeiriadol ar gyfer tir mynediad â hawliau uwch. Canllawiau ynghylch eu defnyddio gan awdurdodau mynediad.
010	Newid Atodlen 2 CRoW ar gyfer hawliau uwch yn unol â'r bwriad polisi ar gyfer unrhyw ardaloedd o dir mynediad a aseswyd.	Gallai Llywodraeth Cymru ystyried dull hyblyg o asesu a phenderfynu addasrwydd sy'n caniatáu amrywiadau mewn hawliau uwch a roddir i ardaloedd, e.e. beicwyr yn unig a/neu farchogion.
011	Amherthnasol*	

Cyfeirnod	Elfen allweddol Opsiwn 1A(ii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
012	Amherthnasol*	
013	Adolygu pwerau CRow i ganiatáu gwella dulliau mynediad i dir mynediad ac oddi mewn iddo ar gyfer hawliau uwch er mwyn bod yn berthnasol i dir mynediad CRow yn gyffredinol. Byddai'n cael ei gymhwyso yn ôl disgrisiwn awdurdodau mynediad.	Byddai angen i Lywodraeth Cymru ofyn am gyngor cyfreithiol ynghylch a yw Rhan I, Pennod III CRow yn rhoi'r pŵer i awdurdodau mynediad wella mynediad i dir mynediad o fewn tir mynediad (er enghraifft, ar draws ffensys mewnol). Os na, dylid gweithredu diwygiadau deddfwriaethol i ganiatáu ar gyfer hyn.
014	Mynediad 'gwell' yn ôl addasrwydd, gallai ystyriaethau gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> - Effeithiau pwysau hamdden - Hygyrchedd tir - Y galw am fynediad 	DS: darperir pwerau ar gyfer rheoliadau i ddiffinio materion fel meini prawf a methodoleg asesu yn 002.
015	Lleihau ymhellach lefel atebolrwydd 'meddianwyr' adran 13 CRow i ddefnyddwyr cyfreithlon tir mynediad CRow.	Mae opsiynau'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> – mae atebolrwydd llai yn cael ei gadw yn ystod gwaharddiadau a chyfyngiadau - lleihau atebolrwydd meddianwyr ymhellach i'r un lefel â'r hyn a roddir gan adran 306 MACA ar gyfer tir mynediad arfordirol yn Lloegr - lleihau atebolrwydd y meddianwyr ymhellach oherwydd anaf a achosir gan dda byw <p>Byddai'n well cymhwyso'r un lefel o atebolrwydd meddianwyr yn niwygiadau 1A ac 1B.</p>

* Nid yw'r elfen allweddol o gam cynnig nodi opsiynau bellach wedi'i chynnwys. Bydd hyn oherwydd, yn dilyn y cam dadansoddi, ni chafodd yr elfen ei hystyried yn hanfodol neu fe'i hymgorfforwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn elfen allweddol arall. Mae'r cyfeirnodau elfennau allweddol wedi'u cadw i'w gwneud hi'n haws cymharu'r opsiynau diwygiedig hyn â'r fersiynau gwreiddiol. Gweler yr adroddiad dadansoddi i gael rhagor o wybodaeth am newidiadau i elfennau allweddol.

1A(iii) Hawliau uwch ar lwybrau penodedig CRow (dull coridor)

Disgrifiad o'r cynnig dethol opsiwn:

Ymestyn y Ddeddf CRow i gynnwys pwerau i awdurdodau mynediad ddiffinio llwybrau/coridorau llinol trwy dir mynediad CRow lle mae cyfyngiadau Atodlen 2 ar

hawliau uwch ar gyfer beicwyr a marchogion yn cael eu codi. Byddai deddfwriaeth CRoW yn berthnasol yn gyffredinol i lwybrau o'r fath.

Elfennau allweddol yn y cynnig 'hawliau uwch ar lwybrau penodedig CRoW':

Ystyriwyd bod angen yr elfennau canlynol yn yr opsiwn hwn:

Cyfeirnod	Elfen allweddol Opsiwn 1A(iii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
001.	<p>Diwygio'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW) i ddarparu pwerau i awdurdodau mynediad ddiffinio llwybrau/coridorau llinol trwy dir mynediad CRoW y mae hawliau uwch ar gyfer marchogion a beicwyr yn berthnasol iddo.</p>	<p>Byddai angen i Lywodraeth Cymru ofyn am gyngor cyfreithiol ynghylch goblygiadau diffinio coridorau tir mynediad CRoW yn ddetholus ar gyfer hawliau uwch, yn benodol unrhyw ofynion iawndal.</p> <p>Mae hwn yn opsiwn adnoddau uchel ar gyfer awdurdodau mynediad a bydd yn golygu costau iawndal o bosibl.</p> <p>Gellid diwygio trwy newid Atodlen 2, paragraff 7(1) CRoW.</p>
002.	<p>Byddai pwerau i awdurdodau mynediad ddiffinio llwybrau hawliau uwch CRoW yn berthnasol i'r holl dir mynediad presennol sydd wedi'i ddynodi neu ei gyflwyno o dan CRoW.</p> <p>Byddai hawliau uwch i'w cymhwyso i goridorau a nodwyd yn rhan o'r broses ddiffinio ac awdurdodau mynediad fydd yn penderfynu arnynt.</p> <p>Yn cynnwys rhagdybiaeth ar gyfer mynediad lleiaf rhwystrol.</p> <p>Pwerau i reoliadau bennu'r broses o ddiffinio coridorau hawliau uwch newydd, gan gynnwys: ystyriaeth ddewisol gan awdurdodau mynediad, eu cymhwyso, asesu'r llwybr arfaethedig, penderfynu ar y llwybr arfaethedig.</p> <p>Proses gynnig/asesu i ddiffinio ardaloedd y gellid cymhwyso hawliau uwch newydd iddynt, gan gynnwys:</p>	<p>Gallai mynnu bod awdurdodau mynediad (fel y daw'r pŵer yn ddyletswydd) yn asesu ardaloedd ar gyfer hawliau uwch sicrhau bod diwygiadau'n cael eu cymhwyso'n ehangach.</p> <p>Ystyried defnyddio proses diffinio llwybr a ddefnyddir ar gyfer Llwybr Arfordir Lloegr o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 [ond heb gymhwyso dynodiad Llwybr Cenedlaethol].</p> <p>Gellid rhoi hawl i awdurdodau mynediad roi hawliau i feicwyr yn unig neu ar gyfer hawliau marchogaeth yn unig.</p> <p>Byddai gan fforymau mynediad lleol hawl i roi cyngor ar unrhyw agwedd ar y broses fel rhan o'u rôl a swyddogaethau presennol.</p> <p>Byddai angen datblygu prosesau opsiynau, meini prawf asesu a methodoleg (ac ati) ymhellach.</p>

Cyfeirnod	Elfen allweddol Opsiwn 1A(iii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
	<ul style="list-style-type: none"> - Cynnig drwy gais [e.e gan unigolyn, fforwm mynediad lleol]; neu - Gynnig gan awdurdod mynediad neu yn ôl ei ddisgresiwn - Asesu'r cynnig yn erbyn meini prawf penodol - Gofynion ymgynghori - Argymhelliad - Penderfyniad gan awdurdod mynediad CRoW - Gweithredu'r llwybr [gan gynnwys dulliau mynediad i dir ac oddi mewn iddo] <p>Gallai'r meini prawf i'w diffinio mewn rheoliadau gynnwys: galw/angen, nodweddion llwybr [gan gynnwys dimensiynau'r coridor], hawliau mynediad presennol, nodweddion ffisegol, cadwraeth natur/treftadaeth.</p>	
003.	<p>Cyfyngiadau a gwaharddiadau i lwybrau CRoW i gynnwys rhagdybiaeth o deithio ymlaen ac i ganiatáu amrywio llwybr neu ddarparu llwybr amgen ar gyfer teithiau cysylltiol o'r fath.</p>	<p>Byddai angen adolygu canllawiau adran 33 CRoW i sicrhau eu bod yn gynnwys hawliau uwch (ac unrhyw ddiwygiad 1B cymwys).</p> <p>Byddai angen datblygu'r broses ar gyfer amrywio llwybr ar dir mynediad CRoW ar gyfer gwaharddiadau a chyfyngiadau hefyd, ac efallai y bydd angen iddi ddilyn prosesau tebyg i'r diffiniad gwreiddiol o'r llwybr.</p> <p>Ni fydd pob llwybr yn llwybr trwodd, e.e. gall fod i olygfan.</p> <p>Gellid gweithredu llwybr amgen trwy ddiwygio Atodlen 2, paragraff 7(2)(b) CRoW fel y gallai'r awdurdod perthnasol neu'r awdurdod mynediad nodi cyfnod o amser (gan dybio bod Atodlen 2, paragraff 7(1) wedi'u ddiwygio yn unol ag elfen allweddol 001.</p>
004.	<p>Adolygu a diwygio Rhan I, Pennod III CRoW os oes angen rhoi pwerau i awdurdod mynediad hwyluso'r ffordd o gael mynediad i</p>	<p>Cadw Rhan I, Pennod III CRoW fel y mae os barn dehongliad cyfreithiol yw ei bod eisoes yn addas; diwygio os nad oes pwerau ar gael ar hyn o bryd.</p>

Cyfeirnod	Elfen allweddol Opsiwn 1A(iii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
	<p>dir mynediad ac o fewn iddo ar gyfer defnyddwyr hawliau uwch [ac ar gyfer pobl â phroblemau symudedd] lle bo angen.</p> <p>Pwerau i Cyfoeth Naturiol Cymru roi arweiniad a chynghor ar y math o ddarpariaeth ar gyfer hwyluso hawliau uwch ac ar gyfer ystyried mynediad lleiaf rhwystrol.</p>	<p>Efallai y bydd Llywodraeth Cymru eisiau ystyried a ddylai fod yn ddyletsywydd i roi arweiniad o'r fath.</p>
005.	<p>Cymhwyso cod mynediad i ddiffinio hawliau a chyfrifoldebau. Darparu adnoddau i ddatblygu a chefnogi'r cod, gan gynnwys gwybodaeth, addysg a hyrwyddo i bobl yng Nghymru ac ymwelwyr.</p> <p>Dyletswydd ar Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a phob awdurdod mynediad i hyrwyddo'r cod.</p>	<p>Er bod cefnogaeth eang ar gyfer cod ac addysg amdano neu ei hyrwyddo, ni ddaethpwyd i gonsensws eang ar ei ffurf – anstatudol, statudol heb sancsiynau (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd o dan adran 20 Deddf CRow) neu statudol gyda sancsiynau. Dylid nodi y gellir bwrw ymlaen â Diwygiad 1A heb ddatrys hyn.</p>

* Nid yw'r elfen allweddol o'r cam nodi opsiynau bellach wedi'i chynnwys. Bydd hyn oherwydd, yn dilyn y cam dadansoddi, ni chafodd yr elfen ei hystyried yn hanfodol neu fe'i hymgorfforwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn elfen allweddol arall. Mae'r cyfeirnodau elfennau allweddol wedi'u cadw i'w gwneud hi'n haws cymharu'r opsiynau diwygiedig hyn â'r fersiynau gwreiddiol. Gweler yr adroddiad dadansoddi i gael rhagor o wybodaeth am newidiadau i elfennau allweddol.

Opsiyndau diwygiedig Diwygiad 1B ar gyfer dethol opsiwn

Fel ar gyfer Diwygiad 1A uchod, mae'r cynigion opsiynau diwygio gwreiddiol ar gyfer Diwygiad 1B wedi'u diwygio ar ôl dadansoddi'r opsiynau. Mae teitlau a disgrifiadau'r opsiynau diwygiedig ar gyfer pob opsiwn 1B a gynigiwyd i'w ddethol fel opsiwn wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol:

1B: Teitl y cynnig opsiwn diwygiedig	Disgrifiad amlinellol diwygiedig o'r cynnig opsiwn
i. Dull Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (MACA)	Dull MACA – diffinio ymyl arfordirol a llwybr arfordirol ar gyfer hamdden awyr agored ar lwybrau troed.
ii. Ehangu CRow i gynnwys tir arfordirol gan ddefnyddio adran 3	Ehangu CRow gan ddefnyddio pwerau adran 3 (ar gyfer hawliau ar droed yn unig), gan greu pwerau cyfocrog i greu hawliau uwch naill ai drwy lwybr/coridor llinol neu fesul ardal.

1B: Teitl y cynnig opsiwn diwygiedig	Disgrifiad amlinellol diwygiedig o'r cynnig opsiwn
iii. [Opsiwn diwygiedig] Rhoi hawliau uwch i opsiwn 1B(i) neu 1B(ii) a ffefrir	Rhoi hawliau uwch ⁶ i fynediad arfordirol unwaith y bydd y dull o drin 1A ac 1B wedi'i ddatblygu.

1B(i) Dull Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (MACA) [Lloegr]

Disgrifiad amlinellol o'r cynnig opsiwn:

Defnyddio dull gweithredu Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (MACA) (fel y'i defnyddir ar gyfer mynediad arfordirol yn Lloegr) i ddiffinio a dynodi ymyl arfordirol a llwybr arfordirol ar gyfer hamdden awyr agored ar droed. Addasu adrannau o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (CRoW) ar gyfer diffinio a rheoli hawliau mynediad arfordirol.

Dethol opsiwn – elfennau allweddol yn y cynnig 'dull MACA' amlinellol:

Ystyriwyd bod angen yr elfennau canlynol yn yr opsiwn o ddull Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir:

Cyfeirnod	Elfen allweddol Opsiwn 1B(i) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
001.	Diwygio CRoW i gyflwyno pwerau i'r Senedd a Cyfoeth Naturiol Cymru sicrhau ymyl arfordirol er mwyn creu gofod i ymestyn sy'n gysylltiedig â llwybr arfordirol.	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r elfen hon yn gyfwerth â'r ddyletswydd yn adran 296 MACA.
002.	Dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru i greu cynllun mynediad arfordirol ar gyfer gweithredu darpariaethau, gan gynnwys diffinio ymyl arfordirol a 'llwybr arfordirol'; wrth baratoi neu adolygu cynllun, rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru ymgynghori â buddiannau perthnasol.	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r elfen hon yn efelychu adrannau 298-299 MACA. Mae'r cynllun mynediad arfordirol yn Lloegr yn darparu'r fethodoleg fanwl ar gyfer diffinio, dynodi a chofnodi yr ymyl arfordirol a llwybr arfordir.
003.	Llwybr arfordirol a ddiffiniwyd fel llwybr cerdded pellter hir (LDR) gan ddefnyddio diwygiad i Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (NPACA). Caniatáu i Lwybr Arfordir Cymru	<ul style="list-style-type: none"> Mewnosododd adran 302 MACA, 'Llwybrau pellter hir' (yn berthnasol yn Lloegr yn unig), adran 55A, 'Cynigion sy'n ymwneud â llwybr arfordirol Lloegr', yn NPACA. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Natural England baratoi

⁶ Mae hawliau uwch yn unol â bwriad polisi 1A ac yn cynnwys hawliau CRoW ar gyfer marchogaeth, beicio a pharagleidio/barcuta, ac, ar ddŵr wedi'i fapio o dan CRoW, ymdrochi/nofio a defnyddio cychod dŵr heb eu pweru.

Cyfeirnod	Elfen allweddol Opsiwn 1B(i) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
	gael ei ymgorffori fel 'llwybr arfordirol'.	adroddiad yn cynnig dynodi Llwybr Arfordir Lloegr fel llwybr pellter hir fel y nodir yn Neddf 1949, fel y'i diwygiwyd.
004.	Cymhwyso adran 306 MACA i leihau atebolrwydd meddianwyr i ddefnyddwyr hawliau mynediad arfordirol.	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwynodd adran 306 MACA, 'Atebolrwydd meddianwyr', sy'n berthnasol yn Lloegr yn unig, adran 6AA o Ddeddf Atebolrwydd Meddianwyr 1984, gan ychwanegu llai o atebolrwydd am nodweddion ffisegol (p'un ai o'r dirwedd neu fel arall) ar dir mynediad arfordirol. • Byddai'n fwy clir cymhwyso'r un lefel o atebolrwydd meddianwyr i holl dir mynediad CRoW (ar yr arfordir ac mewn mannau eraill).
005.	Nodi darpariaeth ar gyfer dirwyn y llwybr arfordirol yn ôl.	<ul style="list-style-type: none"> • Darperir ar gyfer hyn gan adran 302 MACA, 'Llwybrau pellter hir', sy'n mewnosod 'Llwybr sy'n destun erydiad' yn adran 55B o Ddeddf 1949.
006.	Darpariaeth ar gyfer rheoli'r ymyl arfordirol a'r llwybr arfordirol.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae darpariaethau statudol ar gyfer rheoli mynediad arfordirol yn MACA, yn benodol Atodlen 20, ac maent yn berthnasol i 'awdurdodau mynediad' [CRoW] a'r 'corff cefn gwlad priodol' [Cyfoeth Naturiol Cymru os cânt eu trosglwyddo i Gymru]; maent hefyd yn caniatáu i'r corff cefn gwlad ddarparu cyllid i weithredu mynediad arfordirol. • Byddai darpariaethau MACA (gweler Atodlen 20) yn ategu'r pwerau presennol yn CRoW i ganiatáu ar gyfer rheoli mynediad i'r arfordir.
007.	Dyletswydd ar 'awdurdodau mynediad' i sicrhau mynediad lleiaf rhwystrol lle bynnag y bo modd. Pwerau cysylltiedig ar gyfer gwella a rheoli isadeiledd hygrych ar gyfer yr ymyl arfordirol, ac o fewn iddo, ac ar gyfer llwybr arfordirol.	<ul style="list-style-type: none"> • Gellid cynnwys y ddyletswydd hon mewn deddfwriaeth a gellid ei hymestyn i eraill sydd â chyfrifoldebau mynediad, megis Cyfoeth Naturiol Cymru. • Dylid adolygu adrannau 34-38 CRoW ar gyfer digonolrwydd i ddarparu ar gyfer gwelliannau hygrychedd i dir mynediad arfordirol, ac o fewn iddo, a'u diwygio os oes angen. • Byddai dyletswydd mynediad lleiaf rhwystrol newydd yn ychwanegol at ofynion y Ddeddf Cydraddoldeb ac mae iddi oblygiadau adnoddau.

Cyfeirnod	Elfen allweddol Opsiwn 1B(i) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
008.	Amherthnasol*	Wedi'i hepgor oherwydd ystyrir ei fod yn ddiangen.
009.	Gweithdrefnau a nodwyd ar gyfer diffinio a mapio yr ymyl arfordirol (gofod i ymestyn a llwybr arfordirol), gan gynnwys dulliau, prosesau a gofynion ymgynghori.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r darpariaethau 'cynllun mynediad arfordirol' (yn adran 3A CRow a gyflwynwyd gan MACA⁷) yn darparu modd i nodi dulliau a phrosesau manwl ar gyfer diffinio'r ymyl arfordirol (gweler elfen allweddol 002) – gan gynnwys gofynion ymgynghori. • Mae'r 'ymyl arfordirol' yn cynnwys 'gofod i ymestyn' a'r 'llwybr arfordirol'. Mae'r llwybr arfordirol wedi'i fapio. Yn lle cael ei fapio, diffinnir gofod i ymestyn fel yr ardal tua'r môr o'r llwybr arfordirol. • Dylai adrannau 4-11 CRow, 'Mapiau', ac adran 51 o Ddeddf 1949, 'Darpariaethau cyffredinol ynghylch llwybrau pellter hir', a ddiwygiwyd lle bo angen, ddarparu'n ddigonol ar gyfer mapio'r llwybr arfordirol.
010.	Trefn gwaharddiadau a chyfyngiadau CRow – wedi'i haddasu i sicrhau mynediad parhaus i'r ymyl arfordirol, gan gynnwys y llwybr arfordirol.	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai diwygio'r darpariaethau gwaharddiadau a chyfyngiadau yn dileu hawl perchnogion ac eraill i <u>ddefnyddio adran 22 CRow</u>, 'Gwaharddiadau a chyfyngiadau dewisol 28 diwrnod'. Byddai gwaharddiadau a chyfyngiadau trwy <u>gais</u> ar gael i feddianwyr. • Lle mae Llwybr Arfordir Cymru / y llwybr arfordirol ar hawl dramwy gyhoeddus benodedig, mae'n 'dir eithriedig' ac ni allai fod yn destun gwaharddiadau a chyfyngiadau CRow.
011.	Adolygu a diwygio diffiniadau o 'dir eithriedig' yn Atodlen 1 CRow fel y maent yn berthnasol i dir mynediad arfordirol.	<ul style="list-style-type: none"> • Gwnaeth MACA 2009 ddiwygio diffiniadau o dir eithriedig yn Atodlen 1 CRow, e.e. i sicrhau parhad y llwybr arfordirol a thir mynediad arfordirol.
012.	Cod hamdden – addasu'r Cod Cefn Gwlad a chanllawiau hamdden cyfrifol eraill i gynnwys mynediad i'r arfordir.	<ul style="list-style-type: none"> • Yn amodol ar y dull dethol ar gyfer codau hamdden ar draws diwygiadau mynediad yn eu cyfanrwydd.
013.	Mae'r hawliau'n berthnasol i'r rhai ar droed yn unig.	<ul style="list-style-type: none"> • Yn amodol ar y dull a ddefnyddir gyda diwygiad 1B a diwygiad 1A.

⁷ <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/37/section/3A>

* Nid yw'r elfen allweddol o'r cam nodi opsiynau bellach wedi'i chynnwys. Bydd hyn oherwydd, yn dilyn y cam dadansoddi, ni chafodd yr elfen ei hystyried yn hanfodol neu fe'i hymgorfforwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn elfen allweddol arall. Mae'r cyfeirnodau elfennau allweddol wedi'u cadw i'w gwneud hi'n haws cymharu'r opsiynau diwygiedig hyn â'r fersiynau gwreiddiol. Gweler yr adroddiad dadansoddi i gael rhagor o wybodaeth am newidiadau i elfennau allweddol.

1B(ii) 'Adran 3 CRow – mapio tir arfordirol ar gyfer mynediad ar droed'

Disgrifiad amlinellol o'r cynnig opsiwn:

Defnyddio adran 3 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (CRow) i ymestyn hawliau mynediad ar droed i fathau o dir arfordirol. Byddai'r diffiniad o dir mynediad agored CRow yn cael ei ymestyn i gynnwys mathau o dir arfordirol diffiniedig [i'w diffinio], e.e. twyni, traethau, blaendraeth, fflatiau arfordirol, clogwyni a rhosydd. Byddai'r mathau hyn o dir arfordirol yn cael eu mapio gan ddefnyddio'r un prosesau gyfer mapio gwreiddiol Rhan I CRow. Cynnwys pwerau i ddiffinio llwybr neu goridor arfordirol llinol at ddefnydd defnyddwyr hawliau uwch.⁸ Defnyddio deddfwriaeth bresennol Rhan I CRow ar gyfer rheoli tir mynediad arfordirol, yn amodol ar adolygiad o ddigonolrwydd y darpariaethau presennol, yn benodol gwaharddiadau a chyfyngiadau. Darparu cod hamdden cyfrifol a fyddai'n cynnwys cyfrifoldebau mewn perthynas â thir mynediad arfordirol [ynghyd â mynediad cyhoeddus arall].

Dethol opsiwn – elfennau allweddol yn y cynnig opsiwn 'Adran 3 CRow, mapio tir arfordirol ar gyfer mynediad ar droed':

Ystyriwyd bod angen yr elfennau canlynol yn yr opsiwn 'mapio CRow':

Cyfeirnod	Elfen allweddol Opsiwn 1B(ii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
001.	Defnyddio adran 3 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (CRow) i ganiatáu mapio tir arfordirol diffiniedig fel tir mynediad ar gyfer hamdden awyr agored ar droed.	<ul style="list-style-type: none"> Mae adran 3 CRow yn rhoi pŵer i Senedd Cymru ymestyn mynediad agored i gynnwys 'tir arfordirol' trwy orchymyn ac i wneud unrhyw newidiadau canlyniadol angenrheidiol.
002.	Datblygu diffiniadau o dir arfordirol y byddai hawliau CRow (ar droed) yn berthnasol iddo. Cynnwys blaendraethau, clogwyni arfordirol, twyni, fflatiau, traethau, rhosydd arfordirol.	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r mathau o dir arfordirol a enwir yn yr elfen allweddol 002 hon eisoes wedi'u cynnwys yng ngeiriad adran 3 CRow. Fodd bynnag, mae pwerau adran 3 i gynnwys tir arfordirol o unrhyw ddisgrifiad. Dylid adolygu mathau o dir mynediad arfordirol adran 3 a diffinio gofynion manwl mewn rheoliadau newydd (gweler hefyd 003).

⁸ Byddai'r ddarpariaeth yn caniatáu i hawliau uwch gael eu rhoi i dir mynediad arfordirol pe bai'r llywodraeth yn penderfynu gwneud hynny – ar yr un pryd neu'n ddiweddarach.

Cyfeirnod	Elfen allweddol Opsiwn 1B(ii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
003.	Diwygio rheoliadau mapio CRoW i adlewyrchu newid – gan gynnwys diffinio parseli tir a ffin fewndirol tir mynediad arfordirol.	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai angen adolygu a diwygio rheoliadau mapio yn CRoW fel y bo'n briodol er mwyn caniatáu mapio tir arfordirol fel mynediad agored CRoW, e.e. pennu ffin fewndirol tir mynediad arfordirol. • Dylai adrannau 4-11 CRoW, 'Mapiau' (a rheoliadau cysylltiedig), wedi'u hadolygu a'u diwygio yn ôl yr angen, ddarparu'n ddigonol ar gyfer hyn.
004.	Amherthnasol*	Wedi'i hepgor oherwydd ei fod yn ailadrodd elfen allweddol 003.
005.	Lleihau'r atebolrwydd ar dirfeddianwyr o ran defnyddwyr hawliau mynediad arfordirol yn unol â'r hyn a ddarperir yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir Lloegr 2009 (MACA).	<ul style="list-style-type: none"> • Gweler adran 306 MACA • Mae'n well gwneud darpariaethau atebolrwydd meddianwyr yr un peth ar holl dir mynediad CRoW, er eglurder a chysondeb.
006.	Diwygio trefn gwaharddiadau a chyfyngiadau CRoW i roi cyfrif am ofynion penodol mynediad i'r arfordir.	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygu adrannau 21-33 CRoW, 'Gwahardd neu gyfyngu ar fynediad' (gwaharddiadau a chyfyngiadau). Cadw gwaharddiadau a chyfyngiadau trwy gais; peidio â darparu ar gyfer trefniadau cau o dan adran 22 trwy hysbysu ar dir mynediad arfordirol.
007.	Adolygu ac ailddiffinio 'tir eithriedig' o dan Atodlen 1 CROW i sicrhau ei fod yn gymwys i gyd-destun arfordirol.	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd MACA yn cynnwys diwygiadau i Atodlen 1 CRoW, 'Tir eithriedig at ddibenion Rhan I', mewn perthynas â gweithredu mynediad i'r arfordir yn Lloegr a all lywio adolygiad a diwygiadau ar gyfer diwygiad 1B yn gyffredinol.
008.	Ymestyn pwerau yn CRoW i ganiatáu ar gyfer rheoli mynediad o fewn tir mynediad arfordirol, gan gynnwys croesfannau ffiniau – at ddibenion hamdden a rheoli tir a defnyddio dull mynediad lleiaf rhwystrol.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae adrannau 34-39 CRoW, 'Dull mynediad', eisoes yn darparu ar gyfer rheoli mynediad i dir CRoW, gan gynnwys croesfannau ffiniau. Fodd bynnag, mae cymhwysedd y pwerau i ddarparu croesfannau ar draws ffiniau mewnol (megis waliau a ffensys) yn aneglur. • Dylai'r diwygiad gynnwys gofyniad penodol i gymhwyso dull mynediad lleiaf rhwystrol i reoli mynediad.

Cyfeirnod	Elfen allweddol Opsiwn 1B(ii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
		<ul style="list-style-type: none"> Dylai'r diwygiad ddarparu ar gyfer hwyluso gwell mynediad i'r arfordir a theithiau cysylltiol.
009.	Cyflwyno cod mynediad statudol sy'n ymwneud â hawliau a chyfrifoldebau, i gynnwys darpariaethau penodol ar gyfer mynediad i'r arfordir; dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus priodol i hyrwyddo'r cod.	<ul style="list-style-type: none"> Dyletswydd ehangach i hyrwyddo'r cod mynediad i gynnwys cyrff cyhoeddus eraill, fel sy'n briodol.
010.	Mae hawliau i dir mynediad arfordirol yn berthnasol i'r rhai hynny ar droed yn unig [CRoW fel y mae ar hyn o bryd].	<ul style="list-style-type: none"> Yn amodol ar benderfyniad ynghylch a ddylid rhoi hawliau uwch i dir mynediad arfordirol ai peidio. Gellid gweithredu hawliau uwch fel rhan o Ddiwygiad 1A neu ar wahân trwy Ddiwygiad 1B (gweler opsiwn 1B(iii)).
011.	Dangos tir mynediad arfordirol CRoW ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o fapio CRoW Cyfoeth Naturiol Cymru ac ar fapiau'r Arolwg Ordnans (OS).	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru ddangos tir mynediad CRoW ar ei wefan. Felly byddai'n rhaid cynnwys mynediad arfordirol CRoW. Darperir mapiau CRoW i'r Arolwg Ordnans a'r data mapio i borth Lle Llywodraeth Cymru.
012.	Amherthnasol*	Elfen allweddol wedi'i hepgor oherwydd bod y mater bellach wedi'i gynnwys yn yr Opsiwn 1B(iii) diwygiedig.
013.	Diffiniadau CRoW o 'weithgaredd masnachol' a 'digwyddiadau'. Ailddiffinio'r hyn sydd o fewn neu y tu allan i hawliau CRoW yn dilyn adolygiad. Dechrau trwy ystyried y diffiniadau a ddefnyddir yn Neddf Diwygio Tir yr Alban. Defnyddio pwerau rheoleiddio i'w gwneud hi'n haws diogelu at y dyfodol.	<ul style="list-style-type: none"> Mater trawsbynciol y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad. Dylid ystyried unrhyw ddiffiniadau diwygiedig hefyd o fewn diwygiadau eraill y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad, yn bwysicaf oll Diwygiad 1A.

* Nid yw'r elfen allweddol o'r cam nodi opsiynau bellach wedi'i chynnwys. Bydd hyn oherwydd, yn dilyn y cam dadansoddi, ni chafodd yr elfen ei hystyried yn hanfodol neu fe'i hymgorfforwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn elfen allweddol arall. Mae'r cyfeirnodau elfennau allweddol wedi'u cadw i'w gwneud hi'n haws cymharu'r opsiynau diwygiedig hyn â'r fersiynau gwreiddiol. Gweler yr adroddiad dadansoddi i gael rhagor o wybodaeth am newidiadau i elfennau allweddol.

1B(iii) [Opsw'n diwygiedig] Rhoi hawliau uwch drwy Opsw'n 1B neu 1A ar sail penderfyniad ar ddatblygu pob diwygiad

Adran 3 CRoW gyda mapio hawliau uwch ar dir arfordirol

Disgrifiad amlinellol o'r cynnig opsiwn:

Datblygwyd y gallu i gymhwyso hawliau uwch⁹ i dir mynediad arfordirol naill ai trwy'r dull a benderfynwyd ar gyfer Diwygiad 1A neu Ddiwygiad 1B. Gweler Opsw'n 1B(i) ac Opsw'n 1B(ii) i weld sut y gellid ymestyn tir mynediad CRoW a hawliau cysylltiedig i gynnwys tir arfordirol. Gweler Diwygiad 1A i gael opsiynau a ddatblygwyd ar gyfer sut y gellid rhoi hawliau uwch i dir mynediad CRoW.

Byddai Opsw'n 1B(iii) yn gofyn am lacio Atodlen 2 i'r Ddeddf CRoW a'i chymhwyso i dir mynediad arfordirol yn seiliedig ar y dull gweithredu ar gyfer naill ai Diwygiad 1A neu Ddiwygiad 1B fel y penderfynwyd. Byddai llacio Atodlen 2 yn arwain at ymestyn hawliau mynediad i hawliau uwch yn ogystal â'r rhai ar droed. Byddai hawliau uwch yn berthnasol i bob math o dir mynediad arfordirol neu dir penodol yn ôl yr opsiwn a ffefrir.

Nid yw tabl o elfennau allweddol ar gyfer 1B(iii) wedi'i gynnwys (fel ar gyfer yr opsiynau diwygio eraill) gan mai'r ffordd orau o ddatblygu'r manylion hynny fyddai yng ngoleuni'r dull a ddefnyddir.

⁹ Mae hawliau uwch yn unol â bwriad polisi 1A ac yn cynnwys hawliau CRoW ar gyfer marchogaeth, beicio a pharagleidio/barcuta, ac, ar ddŵr wedi'i fapio o dan CRoW, ymdrochi/nofio a defnyddio cychod dŵr heb bŵer.

Atodiad A

Aelodau Grŵp Arbenigol 1 y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad:

Enw	Sefydliad
Richard Ball	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Hugh Craddock	Y Gymdeithas Mannau Agored
Sophie Dwerryhouse	Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Arwel Evans	Cyngor Sir Ynys Môn
Kieran Foster	Cycling UK
Jonathan Hughes	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Elfyn Jones	Cyngor Mynydda Prydain
Rachel Lewis-Davies	Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
James Nevitt	Y Weinyddiaeth Amddiffyn
Rhian Nowell Phillips [Rachel Evans o fis Awst 2020]	Y Gynghair Cefn Gwlad
Pete Rutherford	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Mark Weston	Cymdeithas Ceffylau Prydain
Helen Lewis	Llywodraeth Cymru
Joe Roberts	Cyfoeth Naturiol Cymru
Chris Heaps	Cyfoeth Naturiol Cymru
Jont Bulbeck	Cyfoeth Naturiol Cymru
Jayne Carter	Cyfoeth Naturiol Cymru